

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**9 Ionawr 2023**

## **Disgrifiad**

1. O dan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestr Lleol) 1989, mae angen i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw am dalu (biliau ardrethi) i drethdalwyr ar gyfer eiddo yn eu hardal sy'n ddarostyngedig i ardrethi annomestig.
2. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 (Rheoliadau 2017) yn darparu ar gyfer cynnwys yr hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig sy'n cael eu cyflwyno gan, neu ar ran awdurdodau bilio yng Nghymru, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno gyda hysbysiad galw am dalu a gyflwynir ganddynt. Mae Atodlen 2 o Reoliadau 2017 yn nodi'r geiriau rhagnodedig ar gyfer gwybodaeth esboniadol ("yr wybodaeth esboniadol") y mae'n rhaid ei hanfon at drethdalwyr gan neu ar ran awdurdodau bilio, ynghyd â hysbysiad galw am dalu. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023 (Rheoliadau 2023) yn gwneud diwygiadau gweinyddol i Atodlen 2 o Reoliadau 2017 i wneud yn siŵr bod hysbysiadau galw am dalu sy'n cael eu cyflwyno mewn perthynas â'r rhestr ardrethu newydd sydd i'w llunio ar 1 Ebrill 2023, yn gywir ac yn gyfredol.

## **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

3. Dim.

## **Pwerau**

4. Gwneir Rheoliadau 2023 o dan adrannau 62 a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Cafodd y pwerau hyn eu trosglwyddo, mewn perthynas â Chymru, gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
5. Gwnaed Rheoliadau 2017 i gyd-fynd ag ailbrisiad ardrethi annomestig 2017 yng Nghymru. Gwnaed y rheoliadau blaenorol – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 (Rheoliadau 1993) – gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac fe gawsant eu diwygio'n aml. Manteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i gyfuno'r holl welliannau yn Rheoliadau 2017. Disodlodd Rheoliadau 2017 Rheoliadau 1993, a'r unig newidiadau sylweddol dilynol oedd y newidiadau i'r nodiadau esboniadol a ragnodir yn Atodlen 2 i Reoliadau 2017. Rhaid cyflwyno'r nodiadau esboniadol gyda'r hysbysiadau galw am dalu a gyflwynir i drethdalwyr gan neu ar ran yr awdurdodau bilio (cynghorau sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru).
6. Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (adran 143(3) o Ddeddf 1988).

## **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

7. Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig (biliau ardrethi) o dan Ran II o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989. Gellir darparu'r nodiadau esboniadol naill ai ar bapur neu yn electronig.
8. Mae cynnwys y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r hysbysiadau galw am dalu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r system ardrethu annomestig yng Nghymru yn fanwl gywir. Mae'n ofynnol gwneud rhai newidiadau gweinyddol i Atodlen 2 o Reoliadau 2017 i sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r hysbysiadau galw am dalu yn berthnasol i'r trefniadau a fydd ar waith o 1 Ebrill 2023.
9. Lluniwyd y rhestr ardrethu annomestig bresennol ar 1 Ebrill 2017, yn seiliedig ar ddyddiad prisio rhagflaenol sef 1 Ebrill 2015. Caiff y rhestr ardrethu annomestig nesaf ei llunio ar 1 Ebrill 2023, yn dilyn ailbriso yn seiliedig ar ddyddiad prisio rhagflaenol o 1 Ebrill 2021. Mae'r wybodaeth esboniadol a ragnodwyd i'w darparu gan awdurdodau bilio ochr yn ochr â hysbysiad galw am dalu ar hyn o bryd yn cynnwys cyfeiriadau penodol sy'n berthnasol i restr ardrethu 2017 yn unig. Mae Rheoliadau 2023 yn diweddarau'r cyfeiriadau hyn fel eu bod yn berthnasol i restr ardrethu 2023.
10. Mae rheoliadau wedi'u drafftio i ddiwygio'r broses apeliadau ardrethu annomestig o 1 Ebrill 2023, i gyd-fynd â'r rhestr ardrethu newydd. Mae'r wybodaeth esboniadol yn cyfeirio at drosglwyddo cynigion i apeliadau yn awtomatig, os nad yw'r swyddog prisio yn cytuno arnynt o fewn tri mis, o dan y broses bresennol. Ni fydd hyn yn digwydd o dan y trefniadau diwygiedig ac mae'r datganiad perthnasol, felly, wedi'i hepgor gan Reoliadau 2023.
11. Newidiwyd y mesur chwyddiant perthnasol a ddefnyddiwyd i bennu'r codiad blynyddol yn y lluosydd ardrethu annomestig o'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Drwy reoliadau, gall Gweinidogion Cymru amnewid effaith y Mynegai Prisiau Defnyddwyr am ffigwr arall, nad oes raid iddo o reidrwydd fod yn is na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae Adran 154 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi diwygio Atodlen 7 o Ddeddf 1988 yn hyn o beth. Nid yw cyfeiriad gweddilliol yn yr wybodaeth esboniadol at y Mynegai Prisiau Manwerthu a chyfyngiad ar y graddau y gall Gweinidogion Cymru ei amnewid am ddewis arall bellach yn gywir ac felly caiff ei hepgor gan Reoliadau 2023.
12. O ganlyniad i ailbrisiad 2017, gwnaeth Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016 ddarpariaeth ar gyfer rhyddhad trosiannol i fusnesau bach yr effeithiwyd arnynt yn andwyol gan y newidiadau canlyniadol yng ngwerth ardrethol eu hereditamentau. Nid yw'r trefniadau hyn ar gyfer rhyddhad trosiannol yn berthnasol i restr ardrethu 2023. Cyfeirir at Reoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 yn hytrach: maent yn darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol mewn perthynas â rhestr ardrethu 2023. Mae adran yr wybodaeth esboniadol dan y teitl 'rhyddhad ardrethu trosiannol' wedi'i diwygio'n unol â rheoliadau 2023.

13. Bydd Rheoliadau 2023 yn berthnasol i hysbysiadau galw am dalu a gyhoeddwyd gan neu ar ran awdurdodau bilio yng Nghymru mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol a fydd yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2023.

### **Ymgynghori**

14. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol. Mae Rheoliadau 2023 yn gwneud diwygiadau technegol i'r nodiadau esboniadol a ragnodir o fewn Atodlen 2 i Reoliadau 2017. Mae'r gwelliannau yn angenrheidiol gan fod y gweithdrefnau a'r arferion sydd mewn grym yn dyddio yn rhinwedd ailbrisiad ardrethu annomestig 2023 ac angen eu hadnewyddu. Byddant yn sicrhau bod yr wybodaeth y mae awdurdodau bilio yn ei rhoi gyda hysbysiadau galw am dalu ar gyfer y blynyddoedd ariannol 1 Ebrill 2023 ymlaen yn gyfredol. O ganlyniad, maent yn bennaf o ddiddordeb i awdurdodau bilio ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar drethdalwyr ac eithrio i sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth gywir gyda'u biliau ardrethi. Bydd awdurdodau bilio yn cael gwybod am Reoliadau 2023 a'u heffaith.

### **Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

15. Mae Rheoliadau 2023 yn gwneud newidiadau angenrheidiol yn unig i gynnwys y nodiadau esboniadol y mae'n ofynnol i awdurdodau bilio eu cyflenwi gyda hysbysiadau galw am dalu. Maent yn dechnegol eu natur, o ddiddordeb yn bennaf i awdurdodau bilio ac yn cael effaith gyfyngedig ar drethdalwyr. O'r herwydd, nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi.